monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 8 Ebrill 2026

## Hysbysiad o gyfarfod

# Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit

## Dydd Iau, 16eg Ebrill, 2026 at 2.00 pm,
## Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

**Nodwch y cynhelir rhag gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod ar gyfer aelodau'r pwyllgor a swyddogion Archwilio Cymru**

# AGENDA

| Item No | Item | Pages |
|---|---|---|
| **1.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| **2.** | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| **3.** | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd** | |
| **4.** | **Nodi'r Rhestr o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.** | 1 - 2 |
| **5.** | **Archwilio Cymru - Cyfrifon Statudol Cyngor Sir Fynwy: Cynllun Cyflenwi a'r Camau Nesaf** | 3 - 10 |
| **6.** | **Cynllun Archwilio Cymru 2026-27** | 11 - 34 |
| **7.** | **Gweithredu argymhellion Archwilio Cymru i wella dulliau digidol y Cyngor** | 35 - 48 |
| **8.** | **Adroddiad hunanasesu trefniadau rheoli perfformiad** | 49 - 70 |
| **9.** | **Cod Llywodraethiant Corfforaethol** | 71 - 96 |
| **10.** | **Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit** | 97 - 102 |
| **11.** | **I gymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol** | 103 - 106 |
| **12.** | **Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol:**<br><br>4ydd Mehefin 2026 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 23ain Gorffennaf 2026<br>10fed Medi 2026<br>15fed Hydref 2026<br>19eg Tachwedd 2026<br>14eg Ionawr 2027<br>11eg Chwefror 2027<br>18fed Mawrth 2027 | | |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Andrew Blackmore

Siwan Davies

Colin Prosser

Rhodri Guest

| | | |
|---|---|---|
| County Councillor Sara Burch | Cantref; | Labour and Co-Operative Party |
| County Councillor John Crook | Magor East with Undy; | Welsh Labour/Llafur Cymru |
| County Councillor Tony Easson | Dewstow; | Welsh Labour/Llafur Cymru |
| County Councillor David Jones | Crucorney; | Independent Group |
| County Councillor Malcolm Lane | Mardy; | Welsh Conservative Party |
| County Councillor Phil Murphy | Caerwent; | Welsh Conservative Party |
| County Councillor Peter Strong | Rogiet; | Welsh Labour/Llafur Cymru |
| County Councillor Ann Webb | St Arvans; | Welsh Conservative Party |

## Gwybodaeth Gyhoeddus

Gofynnir i chi nodi y bydd Cyngor Sir Fynwy yn ffilmio'r cyfarfod hwn ac y bydd ar gael i'w weld ar-lein ar ffurf fyw ac archif. Mae'n bosibl y gellid ffilmio ardaloedd lle mae'r cyhoedd yn eistedd a drwy fynd i mewn i'r Siambr rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a defnydd posibl y delweddau hynny a recordiad sain ar gyfer dibenion gwe-ddarlledu. Os ydych yn gwneud sylw i'r cyfarfod bernir eich bod wedi cydsynio i gael eich ffilmio.
Caiff recordiadau o'r cyfarfod eu cadw yn unol â pholisi'r Cyngor ar gadw data. Dim ond os yw'r Swyddog Monitro yn ystyried bod angen hynny oherwydd bod y cyfan neu ran o gynnwys y gwe-ddarllediad yn neu'n debygol o fod yn groes i unrhyw ddarpariaeth statudol neu athrawiaeth cyfraith gyffredin, er enghraifft deddfwriaeth Diogelu Data a Hawliau Dynol neu ddarpariaethau yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig, y caiff gwe-darllediadau neu rannau o we-ddarllediadau  a archifwyd eu tynnu o wefan y Cyngor.

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

**Canllawiau ar gyfer Fforwm Agored i'r Cyhoedd**
**y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit**

Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit yn cael eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen cyfarfod gwefan Cyngor Sir Fynwy

Os hoffech rannu eich barn ar unrhyw faterion sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit, gallwch fynychu'r cyfarfod yn bersonol (neu ymuno o bell drwy Microsoft Teams), neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (drwy Microsoft Word, uchafswm o 500 gair).

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm, a hynny dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.

Mae'r amser a roddir i bob aelod o'r cyhoedd i siarad yn ddibynnol ar Gadeirydd y Pwyllgor. Gofynnwn i gyfraniadau beidio â bod yn hwy na 4 munud.

Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd i siarad o dan y Fforwm Agored i'r Cyhoedd yn y cyfarfod, bydd angen i chi roi tri diwrnod gwaith o rybudd drwy e-bostio GACRegistertoSpeak@monmouthshire.gov.uk

Os hoffech awgrymu pynciau yn y dyfodol i'w hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit, e-bostiwch GACRegistertoSpeak@monmouthshire.gov.uk

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a’r cysylltiadau sydd gennym â’n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

Canllaw Cwestiynau/Ystyriaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit Sir Fynwy

| **Rôl Cyn-cyfarfod** |
|---|
| 1. Pam fod y Pwyllgor yn ystyried yr eitem hon ar yr agenda? (perthnasedd a materoldeb)<br>2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniadau y mae Aelodau am eu sicrhau?<br>3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os na, pwy all ddarparu hyn?<br>4. Beth yw barn gyfrinachol yr archwilwyr ar y materion perthnasol?<br>- Trafod barn/pryderon allweddol yr aelodau gyda'r papurau a chytuno ar flaenoriaethau |
| **Cwestiynau / Ystyriaethau Posib ar gyfer y Cyfarfod** |

| *Archwilio Mewnol (AM)* | *Archwilio Allanol (AA)* |
|---|---|
| 1. Beth yw'r model swyddogaethol AM ac a yw'n addas at y diben?<br><br>2. A oes gan AM awdurdod a dylanwad digonol ar draws yr Awdurdod?<br><br>3. A oes digon o adnoddau gan AM ac a yw wedi'i ymrymuso'n addas? A yw'r cynllun AM blynyddol yn briodol? Ar ba sail ydym yn gwneud y dyfarniad hwn?<br><br>4. A yw Prif Swyddogion yn amlwg yn derbyn ac yn hyrwyddo rôl AM? Sut maent yn gwneud hyn?<br><br>5. A yw Swyddogion yn gweithredu'n egnïol ar ganfyddiadau AM? Sut mae hyn yn cael ei ddangos? A ydyn ni'n herio ac yn dwyn swyddogion i gyfrif yn effeithiol am weithredu canfyddiadau AM?<br><br>6. Sut gallwn ni fod yn hyderus bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn parhau i fod yn briodol?<br><br>7. A oes gennym ni hyder mewn effeithiolrwydd cyffredinol AM? Ar beth ydym yn seilio hyn?<br><br>8. A yw barn flynyddol/cyfnodol AM yn gredadwy?<br><br>9. A oes gennym ddigon o weledadd dros waith, allbwn ac effeithiolrwydd y timau AM cysylltiedig, e.e. CBST? | 1. A yw'r tîm AA (ariannol a pherfformiad) yn gredadwy?<br><br>2. A ydym yn hyderus ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer datblygu cynllun gwaith/amserlen waith flynyddol AA ac a yw'n cyd-fynd â'n dealltwriaeth o risgiau allweddol?<br><br>3. A yw Prif Swyddogion/uwch swyddogion yn ymgysylltu'n briodol ag AA? Sut mae hyn yn cael ei ddangos?<br><br>4. A oes perthynas adeiladol rhwng AM ac AA (ac arolygiaethau eraill)? Beth yw'r dystiolaeth o hyn?<br><br>5. A yw swyddogion perthnasol wedi ystyried canlyniadau/casgliadau adroddiadau cenedlaethol a phenodol AA?<br><br>6. A oes gennym ni weledadd da dros faterion sy'n dod i'r amlwg a nodwyd gan AA?<br><br>7. O ran ISA260 ac adroddiadau ariannol cyfatebol gan AA, a yw swyddogion yn dangos yn glir eu bod yn deall y materion a godwyd ac a oes ganddynt gynllun credadwy i ddatrys materion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf?<br><br>8. A oes gan AA hyder yn Swyddogion CSF a threfniadau llywodraethu? |
| *Llywodraethu* | *Cyllidebu / Risg Ariannol / Cronfeydd Wrth Gefn* |
| 1. A oes disgrifiad cydlynus sydd wedi ei amlinellu mewn cod ar gyfer trefniadau llywodraethu cyffredinol CSF? A yw'n addas at y diben? | 1. A oes yna broses ac amserlen sydd wedi'u diffinio, eu llywodraethu a'u gwirio'n glir ar gyfer datblygu cyllideb yr Awdurdod?<br><br>2. A oes cyfres briodol o bolisïau sy'n ymwneud â risgiau ariannol? A ydynt yn addas?<br><br>3. A yw'r rhagdybiaethau ariannol/gweithredol allweddol yn ddealladwy, yn gredadwy, wedi'u dogfennu ac yn cael eu profi gan |

2. A oes eglurder ynghylch llywodraethu'r trefniadau goruchwylio a chraffu amrywiol ar gyfer (ac effeithiolrwydd) partneriaethau a chydweithrediadau materol?

3. A oes eglurder ynglŷn â dyrannu cyfrifoldebau ac awdurdodau gwneud penderfyniadau?

4. Sut mae achosion o dorri rheolau llywodraethu/rheolaeth yn cael eu nodi a'u hadrodd?

5. A ydym yn hyderus bod y trefniadau ar gyfer gwariant materol (tendro, contractio a chaffael cyfalaf) yn gadarn?

6. A oes gennym ni hyder yn y trefniadau chwythu'r chwiban (a threfniadau tebyg) ar gyfer codi pryderon?

*Risgiau Corfforaethol*

1. A yw atebolrwydd allweddol ar gyfer adnabod, asesu, monitro a rheoli risgiau wedi'i ddiffinio a'i weithredu'n ddigonol?

2. A yw'r dull o reoli risgiau wedi'i gynllunio a'i weithredu'n effeithiol?

3. Sut y gall y Pwyllgor fod yn hyderus bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys yr holl risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Awdurdod?

4. A yw'r cynlluniau gweithredu lliniaru risgiau yn gredadwy ac yn ddigonol er mwyn sicrhau'r canlyniadau a

straen?

4. A oes gan y swyddogaeth Gyllid alluoedd a chapasiti addas i reoli risg ariannol / cwrdd â gofynion a rhwymedigaethau statudol i'r Cyngor?

5. A ydym yn hyderus bod y broses gyllidebol yn debygol o gynhyrchu cyllideb gredadwy / MTFP?

6. A oes trefniadau addas ar waith i reoli ac adrodd ar berfformiad ariannol cyffredinol?

*Datganiadau Ariannol / Risgiau Camddatganiad*

1. A oes dealltwriaeth gyffredin o ddiben y Pwyllgor wrth adolygu datganiadau ariannol drafft?
   a) A yw'r Nodiadau i'r Cyfrifon yn rhesymol?
   b) A yw’r adroddiadau naratif, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn rhesymol ac yn cyd-fynd â barn y pwyllgor?

2. Ydym ni’n gyfforddus â barn gwaith ac archwilio AA?

| | |
|---|---|
| ddymunir? | |
| **Cwestiynau ar gyfer y Pwyllgor i orffen…** | |
| A oes gennym ni'r wybodaeth angenrheidiol i ddod i gasgliadau/gwneud argymhellion / uwchgyfeirio materion i'r Uwch Dîm Gweithredol, y cyngor, y pwyllgor craffu perthnasol?<br><br>A oes angen i ni wneud gwaith pellach? Os felly, sut? | |